CADWYN CLWYD : Polisi Amgylcheddol

Cyflwyniad

1. Bydd polisi

- yn berthnasol i wasanaethau gweithredol a chefnogaeth megis rheoli adnoddau, gwasanaethau swyddfa, argraffu, cyhoeddi a chaffaeliad
- yn gymwys i bob rhan o Cadwyn Clwyd
- yn cael ei arolygu a'i adolygu fel bo'r angen o leiaf pob tair blynedd.

Cyfrifoldeb

2. Bydd cyfrifoldeb am integreiddio dulliau amgylcheddol i weithgareddau Cadwyn Clwyd a'r ardal weithredol yn disgyn gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr Cadwyn Clwyd. Bydd y gwaith o weithredu'r polisi yn cael ei roi i Reolwr Cadwyn Clwyd.

3. Hefyd, bydd cynlluniau busnes Cadwyn Clwyd yn gofyn bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr

- yn gyfrifol am weithrediad amgylcheddol Cadwyn Clwyd, ac
- yn sicrhau fod agweddau amgylcheddol yn greiddiol i bob elfen.

Amcanion

4. Bydd Cadwyn Clwyd yn parhau i amcanu at wella ei pherfformiad amgylcheddol drwy:

- fod yn **ddarbodus** gydag ynni, dwr, pren, papur ac adnoddau eraill – yn enwedig y nwyddau hynny sy'n brin neu nad yw yn adnewyddol – gan barhau i ddarparu amgylchedd weithio sy'n ddiogel a chyfforddus;
- cwtogi **gwastraff** drwy "gwtogi, ail-ddefnyddio ac ailgylchu" a chan ddefnyddio cynnyrch a nwyddau a ailgylchwyd pan yw'r dewis ar gael;
- hyrwyddo camau fydd yn lleihau gollyngiad gan gerbydau;
- annog (drwy arweiniad tynn) **manwerthwyr, danfonwyr a chontractwyr** i ddatblygu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol am brisiau cystadleuol;
- sicrhau fod **nwyddau sy'n dod o fywyd gwyllt**, megis pren, planhigion a nwyddau lledr, yn dod o ffynonellau cynaliadwy, ac yn cyd-fynd â rheolau masnach yr UE a rhyngwladol megis CITES (the Convention on International Trade in Endangered Species);
- weithio gyda **chontractwyr** i wella perfformiad amgylcheddol pan yw hyn yn berthnasol i'r contract ac i sicrhau gwerth gorau;
- sicrhau, pan fo'n ymarferol, fod **adeiladau** a fynychir gan Cadwyn Clwyd wedi eu cynllunio ac y'i gweithredir i wella eu perfformiad amgylcheddol;
- **addysgu, hyfforddi ac annog staff a chontractwyr** i weithio mewn modd amgylcheddol gydwybodol ac i chware rhan iawn i ddatblygu syniadau a mentrau newydd; ac

- i **gyfathrebu** yn agored â staff ynglŷn â pholisïau amgylcheddol ac ymarfer da, ac i gydweithio gydag eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat gartref a thramor i ddatblygu a hyrwyddo ymarferion amgylchedd gadarn.

Amcanion

5. Bydd Cadwyn Clwyd yn gwarchod adnoddau naturiol a chwtogi llygredd drwy amcanu i gyflawni'r amcanion canlynol.

Gwarchod adnoddau

(a) Ynni

i wella effeithlonrwydd ynni o fewn gweithgareddau Cadwyn Clwyd gan hyrwyddo ymarfer da.

- prynu offer ynni effeithlon sy'n sicrhau gwerth gorau;
- cyflwyno technegau a thechnolegau newydd ar gyfer defnyddio ynni yn fwy effeithlon heb gwtogi ar yr elfen gynhyrchiol a chyfforddusrwydd

(b) Gwastraff

i gwtogi gwastraff solid a chynhyrchion gan weithrediad Cadwyn Clwyd drwy ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a gwella cynlluniau ailgylchu ac i sicrhau:

- yr ymdrinnir â phob gwastraff gan gyd-fynd ag anghenion cyfreithiol ac ymarfer da,
- yr anogir pob aelod o staff i weithredu egwyddor o – gwtogi, ail ddefnyddio, ac ailgylchu.

(c) Dwr

- i fonitro'r defnydd o ddwr o fewn Cadwyn Clwyd
- i ddefnyddio'r wybodaeth i osod sylfaen lle gellir gosod targedau i gwtogi'r defnydd o ddwr drwy ddilyn ymarfer da.

(ch) Pren

- i brynu pren a gynhyrchwyd mewn nodd cynaliadwy a nwyddau pren ac i sicrhau fod y pren wedi dod o fforestydd a phlanhigfeydd cyfreithlon, ac eu bônt wedi eu rheoli er mwyn cynnal eu bio-amrywiaeth, cynhyrchiant a bywyd, a rhwystro niwed i ecosystemau eraill ac unrhyw bobl gynhenid neu sy'n dibynnu ar fforestydd.

(d) Papur

- i gwtogi'r defnydd o bapur, e.e. drwy argraffu a chopïo dwy ochrog a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg amgylcheddol a chyfryngau electroneg

Cwtogi Llygredd

(dd) Newidiadau Amgylcheddol

i gwtogi lledaeniad carbon diocsid drwy:

- gwtogi y defnydd o ynni yn adeiladau Cadwyn Clwyd
- annog ymarferion i gwtogi lledaeniad cerbydau

(e) gwasgariad cerbydau

- arolygu teithiau staff ac annog staff i ystyried dulliau o drafaelio a chyfathrebu sy'n creu llai o lygredd na cheir, megis cerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, teleweithio a chynadledda fideo.

(f) deunyddiau perygl

- i beidio ag annog ysmygu trwy addysgu a'i wahardd mewn ardaloedd sydd wedi eu neilltuo ar gyfer ysmygu.

(ff) Defnyddio Bio

- i ddefnyddio deunyddiau bio megis pren, cerdyn a phapurau lle maent yn rhoi yr opsiwn amgylcheddol a gwerth gorau.

(g) Ysbwriel

- i gyd-fynd â'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 drwy gadw safle Cadwyn Clwyd rhag ysbwriel – gan gymryd i ystyriaeth côd ymarfer ynglŷn ag ysbwriel.

(ng) Swn

- i gyd-fynd â gofynion statudol, rheoliadau, is-ddeddfau a chodau ymddygiad i gadw lefelau swn mor isel ag sy'n ymarferol.

Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer Caffaeliad Nwyddau a Gwasanaethau

6. Mae gan Gaffaeliad effaith amgylcheddol sylweddol. Felly. Mae Cadwyn Clwyd wedi ymrwymo trwy ei phenderfyniadau ynglŷn â phrynu i:

sicrhau fod pob pryniant yn cael ei wneud yn unol â'r datganiad polisi hwn, deddfwriaeth bresennol berthnasol, ei ganllawiau ar gyfer cyflenwyr a phrynwyr ac arweiniad swyddogol arall.